Adran Amgylchedd			
Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad			
Oddi wrth:	Rhys Jones Arweinydd Tím Bioamrywiaeth	**At:**	Medi Emlyn Davie, Swyddog Rheolaeth Datblygu
Ein Cyf:	C19/0338/42/LL	**Eich Cyf:**	
Dyddiad:	28/05/2019	**Dyddiedig:**	

C19.0338.42.LL Bwthyn Bridyn_HRA
Estyniad blaen, creu balconi llawr cyntaf, addasiadau i'r to ac ymestyn adeilad allanol i greu anecs

Ymhellach i fy sylwadau blaenorol:
Fel mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi yn eu sylwadau, gallai'r cais effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

- Pen Llyn a'r Sarnau
- Clogwyni Pen Llŷn

Mae llwybr effaith llygredd posibl i nodweddion o'r safleoedd yma.
Mi fydd rhaid i Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Cymwys gynnal Prawf Effaith Arwyddocaol Tebygol tan Reoliad 63 y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) cyn gallu penderfynu ar y cais.

Y cam cyntaf yw cynnal Prawf o Effaith Arwyddocaol Sylweddol:
Mae yna risg fach i rywfaint o ddeunydd llygredig ddenig o'r safle ac effeithio ar nodweddion y safleoedd.
Bydd gofyn i'r datblygwr ddilyn ymarfer da cydnabyddedig ar gyfer y math yma o ddatblygiad. Mae'r rhain wedi eu manylu yn sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a dylid eu hamodi. Bydd raid i'r datblygwr hefyd ddilyn y canllawiau i Atal Llygredd 5 "Gweithiau a gwaith cynnal a chadw mewn dŵr neu'n agos iddo":
http://www.netregs.org.uk/media/1415/gpp-5-works-and-maintenance-in-or-near-water.pdf

Canlyniad
Oherwydd y manylion uchod a maint y datblygiad gall Cyngor Gwynedd fod yn hyderus na fydd datblygiad Bwthyn Bridyn yn arwain at Effaith Arwyddocaol Sylweddol Negyddol ar nodweddion na phrosesau ACA Pen Llyn a'r Sarnau, a Clogwyni Pen Llŷn

Diolch
Rhys